OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 2675 (Cy.289)

# CARTREFI SYMUDOL, CYMRU

## Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Hydref 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *29 Hydref 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *19 Tachwedd 2012* |

O ran Cymru, Gweinidogion Cymru(**1**) yw'r awdurdod cenedlaethol priodol at ddibenion arfer y pwerau a roddwyd gan adran 1(2)(e) o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983(**2**) ac maent yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau hynny.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 19 Tachwedd 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a roddir ar ôl 19 Tachwedd 2012 mewn perthynas â chytundeb—

(a) ar gyfer gosod cartref symudol ar safle gwarchodedig(**3**) yng Nghymru, a

(b) y bydd Deddf Cartrefi Symudol 1983 yn gymwys iddo.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "datganiad ysgrifenedig" ("*written statement*") yw'r datganiad ysgrifenedig y mae'n ofynnol i berchennog safle gwarchodedig ei roi i'r darpar feddiannydd o dan adran 1(2) o Ddeddf 1983;

ystyr "Deddf 1983" ("*the 1983 Act*") yw Deddf Cartrefi Symudol 1983.

(**1**) Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 1983 p.34. Amnewidwyd adran 1 o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 gan adran 206(1) o Ddeddf Tai 2004 (p.34). O ran Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol priodol; gweler y diffiniad o "the appropriate national authority" yn adran 5(1) o Ddeddf 1983 (fel y'i diwygiwyd gan adran 206(3) o Ddeddf 2004). Mae Deddf 1983 yn ymestyn i Gymru a Lloegr a'r Alban, ac mae wedi ei diwygio'n sylweddol o ran Cymru gan adrannau 206 i 208 o Ddeddf Tai 2004 a Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Awdurdodaeth Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/899 (Cy.119)).

(**3**) I gael y diffiniad o "mobile home" a "protected site" *gweler* adran 5(1) o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983.

**Datganiad ysgrifenedig: gofynion rhagnodedig**

**3.** Y gofynion y mae'n rhaid i ddatganiad ysgrifenedig gydymffurfio â hwy at ddibenion adran 1(2) o Ddeddf 1983 (yn ychwanegol at ofynion adran 1(2)(a) i (d) o Ddeddf 1983) yw—

(a) fod yn rhaid iddo gynnwys—

(i) y nodyn sy'n rhagflaenu Rhan 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, a

(ii) yr wybodaeth a grybwyllir yn Rhannau 1 i 3 o'r Atodlen honno (i'r graddau nad ydynt eisoes yn ofynnol gan adran 1(2)(a) i (d) o Ddeddf 1983), a

(b) fod yn rhaid iddo fod yn y ffurf a geir yn yr Atodlen honno neu mewn ffurf sylweddol debyg ei heffaith.

**Dirymu**

**4.** Mae Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2007(**4**) wedi eu dirymu.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, un o Weinidogion Cymru

24 Hydref 2012

(**4**) O.S. 2007/3164 (Cy.275).

YR ATODLEN Rheoliad 3

DATGANIAD YSGRIFENEDIG O DAN DDEDDF CARTREFI SYMUDOL 1983 Y MAE'N OFYNNOL EI ROI I DDARPAR FEDDIANNYDD LLAIN

**PWYSIG - DARLLENWCH Y DATGANIAD HWN YN OFALUS A'I GADW MEWN MAN DIOGEL. MAE'N GOSOD Y TELERAU Y BYDD GENNYCH YR HAWL I GADW'CH CARTREF SYMUDOL AR SAFLE GWARCHODEDIG ARNYNT AC YN DWEUD WRTHYCH YNGHYLCH YR HAWLIAU A RODDIR I CHI YN ÔL Y GYFRAITH. OS NAD YDYCH YN DEALL UNRHYW BETH DYLECH GEISIO CYNGOR (ER ENGHRAIFFT GAN GYFREITHIWR NEU GANOLFAN CYNGOR AR BOPETH).**

## RHAN 1

### Gwybodaeth ynglŷn â'ch Hawliau

**Deddf Cartrefi Symudol 1983**

**1**. Byddwch yn ymrwymo i gytundeb gyda pherchennog safle a fydd yn rhoi hawl ichi gadw'ch cartref symudol ar dir perchennog y safle a byw ynddo fel eich cartref. Byddwch wedi eich amddiffyn yn awtomatig, a byddwch yn cael rhai hawliau penodol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 ("Deddf 1983"). Mae'r hawliau hyn yn effeithio'n benodol ar ddiogelwch eich deiliadaeth, gwerthiant eich cartref ac adolygu ffi'r llain.

**Telerau ymhlyg**

**2**. Mae Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 yn cynnwys telerau ymhlyg (mae Pennod 2 yn gymwys o ran pob llain ar safle gwarchodedig ac eithrio'r rhai ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr; mae Pennod 3 yn gymwys i leiniau dros dro ar safleoedd awdurdodau lleol a chynghorau sir yn Lloegr ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, ac mae Pennod 4 yn gymwys i leiniau parhaol ar safleoedd awdurdodau lleol a chynghorau sir yn Lloegr ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr) a fydd yn gymwys yn awtomatig i'ch cytundeb chi ac ni ellir eu gwrth-wneud, cyhyd â bod eich cytundeb yn parhau i fod yn un y mae Deddf 1983 yn gymwys iddo. Mae Rhan 3 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983, os yw'n gymwys, yn nodi darpariaethau sy'n ategu'r telerau ymhlyg. Mae'r telerau a fydd yn gymwys i chi wedi eu cynnwys yn yr atodiad i Ran 2 o'r datganiad hwn.

**Telerau datganedig**

**3**. Bydd y telerau datganedig sydd yn Rhan 3 o'r datganiad hwn yn gymwys i chi. Os nad ydych yn fodlon ag unrhyw un neu ragor o'r telerau datganedig hyn, dylech eu trafod gyda pherchennog y safle, a gallai gytuno i'w newid.

**Telerau ychwanegol**

**4**. Mae telerau ychwanegol yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983, a gellwch ofyn iddynt gael eu cynnwys yn eich cytundeb. Mae'r rhain yn ymdrin â'r materion canlynol:

(a) y symiau sy'n daladwy gan y meddiannydd yn unol â'r cytundeb, a'r adegau pryd y maent i'w talu;

(b) yr adolygiad cyfnodol blynyddol o'r symiau taladwy hyn;

(c) darparu neu wella'r gwasanaethau sydd ar gael ar y safle gwarchodedig, a defnydd y meddiannydd o wasanaethau o'r fath; a

(d) cadw amwynder y safle gwarchodedig.

**Yr hawl i herio'r telerau datganedig**

**5**. Os ydych yn ymrwymo i gytundeb, ac wedyn yn teimlo'n anfodlon â thelerau datganedig y cytundeb, gellwch eu herio, ond rhaid ichi wneud hynny o fewn chwe mis i'r dyddiad pryd y gwnaethoch ymrwymo i'r cytundeb neu'r dyddiad pryd y gwnaethoch chi gael y datganiad ysgrifenedig, p'un bynnag yw'r diweddaraf. Os ydych yn dymuno herio'ch cytundeb, cynghorir chi i siarad â chyfreithiwr neu ganolfan cyngor ar bopeth.

**6**. Gellwch herio'r telerau datganedig drwy wneud cais i dribiwnlys eiddo preswyl. Gellwch ofyn i unrhyw delerau datganedig yn y cytundeb (y rhai sydd yn Rhan 3 o'r datganiad hwn) gael eu newid neu eu dileu.

**7**. Gall perchennog y safle hefyd fynd i dribiwnlys eiddo preswyl i ofyn i'r cytundeb gael ei newid yn y ddwy ffordd hyn.

**8**. Rhaid i dribiwnlys eiddo preswyl wneud gorchymyn ar delerau y mae'n ystyried eu bod yn gyfiawn a theg yn yr amgylchiadau.

**Terfyn amser o chwe mis ar gyfer herio'r telerau**

**9**. Rhaid ichi weithredu'n gyflym os ydych eisiau herio'r telerau. Os nad ydych chi neu berchennog y safle yn gwneud cais i dribiwnlys o fewn chwe mis i'r dyddiad pryd y gwnaethoch chi ymrwymo i'r cytundeb neu'r dyddiad pryd y gwnaethoch chi gael y datganiad ysgrifenedig, p'un bynnag yw'r diweddaraf, byddwch chi a pherchennog y safle wedi ymrwymo i delerau'r cytundeb ac ni fydd modd eu newid oni bai bod y ddau barti yn cytuno.